

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6**

**Adroddiad ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau 2019**

**Enw y Cyngor Tref neu Gymuned:** Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**Cyflwyniad a'r Cyd-destun**

- Disgrifiad byr o'r Cyngor, ei swyddogaethau a'r cyd-destun o ran
- sut y gallai helpu bioamrywiaeth (trwy ei swyddogaethau rheoli tir, cyllid grant, gweithgareddau addysgol e.e.)
  - graddfa ofodol a lle (e.e. faint o dir mae'n ei gynnwys, poblogaeth, praesept?)
  - cyflawni gwasanaethau i'r cyhoedd (e.e. a yw'n destun Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?)

Mae ardal Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn cynnwys 307 anheddau gyda phoblogaeth o 617 o drigolion (Cyfrifiad 2011) a 474 0 etholwyr ar y rhestr gyfredol. Praesept y Cyngor yw £10,000

Mae ysgol gynradd, addoldai, neuadd bentref, tafarn/siop yn y pentref. Mae'r trigolion yn gweithio yn y byd amaeth, yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn, yn y depo amaethyddol, yn y byd twristiaeth a nifer sylweddol yn teithio allan o'r ardal i amrywiaeth o swyddi. Mae nifer yn gweithio o adref.

Mae Cymuned Llanuwchllyn yn rhan o ardal Parc Cenedlaethol Eryri gydag amrywiaeth o gynefinoedd: mynyddoedd, mawndir, ffriddoedd, coedwigoedd a fforest, tir gwastad a dolydd, gorlifdir, afonydd, llynnoedd. Ardal amaethyddol cymoedd sy'n amgylchu pentref Llanuwchllyn.

Mae'r amaethwyr, gyda chyngor gwahanol gynlluniau Llywodraeth Cymru a Wardeiniaid y Parc Cenedlaethol, yn cyfrannu'n sylweddol iawn at gynnal bioamrywiaeth yr ardal.

Mae'r Cyngor Cymuned yn berchen ar Fynwent yr Eglwys. Nid oes claddedigaethau yno ac mae'r gwair yn y fynwent yn cael ei dorri 2 waith y flwyddyn yn unig. Mae yw yno, rhai yn hen iawn.

Mae'r Cyngor hefyd yn berchen ar y Fynwent Newydd a ddefnyddir ar gyfer claddedigaethau.

<b>Adroddiad Gweithredu</b>		
Camau gweithredu i:		Wedi eu monitro gan:
-cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael	- Wrth ymateb i geisiadau cynllunio - wrth ymwneud a phrosiectau'r Cyngor - wrth bwrcasu	Cyngor
-codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd	Cyd-weithio gyda Chlwb Garddio Ysgol O M Edwards	
-diogelu y prif rywogaethau a'r cynefinoedd	Gofalu bod ceisiadau cynllunio yn cydymffurfio gyda rheolau gwarchod Parc Cenedlaethol Eryri Torri gwair Mynwent yr Eglwys 2 waith y flwyddyn.	
-adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth	Mewn partneriaeth â Pharc Cenedlaethol Eryri a Cyngor Gwynedd, cynnal llwybr y Cei trwy bôn docio a phlygu'r gwrych Plygu gwrych ym maes parcio'r fynwent. Bwriedir creu gardd dawl a fydd yn hybu bioamrywiaeth yn yr ardal tu ôl i'r fynwent	Cyngor  Is- bwyllgor y Fynwent
-mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol	Gyda chymorth wardeiniaid Parc Cenedlaethol Eryri, difa llysiâu'r dial o safle yn ymyl lloches bws Tŷ'n Ddôl	Cyngor
-defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth		
-cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill	Cefnogi gwaith amaethwyr, gwaith cynnal llwybrau Partneriaeth Penllyn a Parc Cenedlaethol Eryri, clwb garddio Ysgol O M Edwards a Sioe Cymdeithas Amaethyddol ac Arddwriaethol Llanuwchllyn	Cyngor
<b>Arolwg o ddyletswydd Adran 6</b>		

- Beth sydd wedi gweithio'n dda? Beth fu'r rhwystrau? Beth fyddwch yn ei newid?
  
- Sut a phryd fydd y ddyletswydd Adran 6 yn cael ei monitro a'r cynllun Adran 6 wedi'i adolygu?

Monitro parhaus  
Arfarniad yn Rhagfyr bob blwyddyn